**TRIBIWNLYS Y GYMRAEG**

**Achos TyG/WLT/18/2**

Aled Powell v Comisiynydd y Gymraeg

CRYNODEB O BENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS
(at bwrpasau gwybodaeth y cyhoedd yn unig)

Cwynodd y Ceisydd i Gomisiynydd y Gymraeg fod ei gyngor lleol wedi methu, ar ddau achylysur, â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn perthynas ag arwyddion cyhoeddus. Penderfynodd y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i'r cwynion, ar y sail ei bod eisoes yn cynnal ymchwiliad i gydymffurfiaeth y cyngor â'i ddyletswyddau o dan y safonau mewn perthynas ag arwyddion yn gyffredinol. Gofynodd y Ceisydd ar i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniadau'r Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i'w gwynion, gan ddadlau bod ymchwiliad cyffredinol y Comisiynydd yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd ac felly bod ei ddefnyddio fel cyfiawnhâd dros beidio ag ymchwilio i'w gwynion yn afresymegol.

Pan gafodd y Comisiynydd ei hysbysu bod y Ceisydd yn ceisio herio, o flaen y Tribiwnlys, ei phenderfyniadau i beidio ag ymchwilio i'w gwynion, newidiodd ei phenderfyniadU gwreiddiol ac hysbysodd y Ceisydd ei bod yn agor ymchwiliadau i'w gwynion wedi'r cyfan. Esboniodd hynny ar y sail y byddai cyfiawnhau ei phenderfyniadau gwreiddiol, o flaen y Tribiwnys, yn golygu "cryn cost ac amser" ac y byddai ymchwilio i'r cwynion yn "llai costus a gwastraffus" nag amddiffyn ei phenderfyniadau gwreiddiol. Gan fod ei phenderfyniadau gwreiddiol wedi'u gwrthdroi, gwnaeth y Comisiynydd gais i'r Tribiwnlys i ddileu Cais y Ceisydd am adolygiad, gan ddadlau nad oedd gan y Tribiwnlys, bellach, awdurdodaeth i ystyried y penderfyniad gwreiddiol neu, fel arall, y byddai'n gamddefnydd o bwerau'r Tribiwnlys i barhau i ystyried penderfyniadau a oedd eisoes wedi'u gwrthdroi.

Ym marn y Tribiwnlys, roedd anghydfod sylweddol yn dal i fodoli mewn perthynas â chyfreithlondeb penderfyniadau gwreiddiol y Comisiynydd. Nid oedd y Comisiynydd wedi cyfaddef bod unrhyw nam yn y penderfyniadau hynny ac roedd yn bosibl y byddai'r Comisiynydd yn defnyddio dadl debyg mewn achosion eraill. Roedd y Ceisydd wedi codi nifer o ddadleuon sylweddol mewn perthynas â rheswm y Comisiynydd dros beidio ag ymchwilio i'w gwynion ac roedd diddordeb cyhoeddus amlwg mewn ystyried y dadleuon hynny os oedd gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys yn derbyn dadl y Comisiynydd nad oedd gan y Tribiwnlys bŵer, o dan adran 103 a 104 o Fesur y (Cymru) 2011, i adolygu penderfyniad a oedd eisoes wedi'i wrthdroi gan y Comisiynydd. Roedd geiriad adran 104, yn arbennig, yn awgrymu mai'r unig fath o benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ystyried oedd penderfyniad a oedd, o hyd, yn weithredol, ac nid un, er

enghraifft nad oedd bellach yn weithredol am fod y Comisiynydd eisoes wedi'i wrthdroi o'i gwirfodd.

O ganlyniad, nid oedd dewis gan y Tribiwnlys ond i ddileu'r Cais.

**9 Gorffennaf 2018**